ARHOLIADAU'R YSGOLORIAETH MYNEDIAD

IONAWR 2019

DRAMA AC ASTUDIAETHAU THEATR

Amser - 1.5 awr

Dylai'r ymgeiswyr ateb DAU gwestiwn

---

1. Beth mae'r ymadrodd, *theatr gorfforol,* yn ei olygu i chi? Rhowch enghreifftiau i ategu'ch safbwynt.

2. Trafodwch y naill neu'r llall o'r cysyniadau theatraidd canlynol yng nghyswllt un dramodydd: Naturiolaeth NEU Abswrdiaeth.

3. Trafodwch swyddogaeth senograffeg (set/goleuo/sain/gwisgoedd/technoleg) mewn theatr gyfoes. Cyfeiriwch at enghreifftiau penodol i ategu'ch ateb.

4. Beth yn eich barn chi yw heriau perfformio gwaith Shakespeare i gynulleidfa gyfoes? Yn eich ateb, defnyddiwch enghreifftiau o ddramâu Shakespeare i ategu'ch safbwynt.

5. Trafodwch waith DAU o ymarferwyr/gwmnïau theatr neu ddramodwyr cyfoes y mae gennych ddiddordeb yn eu gwaith. Dylech gyfeirio at destunau neu berfformiadau penodol i ddangos yr hyn sy'n nodedig am eu gwaith.

6. Beth sy'n gwneud theatr yn berthnasol i'r gymdeithas heddiw? A yw'n dal i fod yn berthnasol? Trafodwch.

7. Beth yw cyfrifoldebau cwmni theatr cenedlaethol a gyllidir gan arian cyhoeddus? Pwy ddylai'r cwmni ei wasanaethu? Sut y dylai'r cwmni gyflawni ei amcanion?